WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel/Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Llŷr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

**Cyfeirnod:** IG19003/AC090/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 4 Mawrth 2019

Annwyl Llŷr

## Cynllun pensiwn y gwasanaeth sifil - cynnydd yng nghyfraniadau'r cyflogwr 2019.

Roedd ein Hamcangyfrif ar gyfer 2019-20 yn cyfeirio at gynnydd disgwyliedig yng nghyfraniadau pensiwn y cyflogwr oherwydd gwerthusiad Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, oedd yn cael ei gynnal ar y pryd. Yn ein llythyr dyddiedig y 10fed o Ionawr 2019, fe wnaethom addo rhoi diweddariad i chi am ganlyniad y gwerthusiad hwn unwaith y byddai'r sefyllfa'n gliriach.

Yr hyn a ddisgwyliem oedd cynnydd cyfartalog o oddeutu 7%, fyddai'n cynyddu costau i Swyddfa Archwilio Cymru o £750,000. Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor fis Tachwedd y llynedd, eglurodd Steve O'Donoghue, ein Cyfarwyddwr Cyllid,[1] ein dull cynllunio ariannol ac na allai cynnydd o'r fath, heb rybudd cynnar, gael ei gynnwys. Fe wnaethom esbonio i'r Pwyllgor mai'r dewisiadau fyddai gennym fyddai naill ai dod yn ôl at y Pwyllgor gyda chynnig i gynyddu ein galwad ar Gronfa Gyfunol Cymru, neu geisio trosglwyddo'r cynnydd ymlaen drwy ein taliadau ffioedd, ac os felly byddai angen inni ddod yn ôl at y Pwyllgor i gytuno ar gynllun ffioedd diwygiedig yn ogystal ag Amcangyfrif diwygiedig.

Ar y 7fed o Chwefror 2019, cyhoeddodd Swyddfa'r Cabinet y byddai rhan o'r broses werthuso yn cael ei rhoi heibio dros dro ond y byddai'r gwerthusiad yn cael ei ddefnyddio i bennu cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr. Er mwyn rhoi sicrwydd, maent wedi pennu'r cyfraddau o 1 Ebrill 2019 ar sail canlyniadau drafft y gwerthusiad, a'u bwriad yw diwygio'r rhain o 1 Ebrill 2020, unwaith y bydd y gwerthusiad wedi ei gwblhau. Yn awr, a'r cyfraddau o 1 Ebrill 2019 wedi cael eu

[1] http://record.assembly.wales/Committee/5132#C133912 07/11/2018 09:42:20 / Steve O'Donoghue

cadarnhau, rydym wedi newid ein hamcangyfrif o’r gost i Swyddfa Archwilio Cymru ar ôl y cynnydd i fod yn **£732,000**.

Deallwn y bydd y Trysorlys o bosibl yn darparu peth cyllid ychwanegol i fod o gymorth i gwrdd â’r costau fydd yn syrthio ar gyflogwyr,[2] ond nid ydym wedi derbyn cadarnhad o hyn. Byddai cyllid o’r fath i Gymru yn dod drwy Floc Cymru ac felly byddai angen cyllideb atodol pe baem i dynnu arno. Byddwn yn parhau i drafod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn cael darlun cliriach cyn gynted ag y bo modd.

Caiff Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru wybodaeth ynghylch y sefyllfa yn ei gyfarfod ym mis Mawrth a bydd yn trafod y risgiau cysylltiedig â’r dewisiadau gwahanol sydd ar gael i gau’r bwlch cyllid. Yn amlwg, byddwn hefyd yn ailedrych ar ein cyllideb bresennol i weld a oes lle i gerfio arbedion pellach allan i’w rhoi yn erbyn y costau ychwanegol.

Byddwn yn ysgrifennu eto unwaith y bydd gennym ddarlun cliriach.

Yn gywir

Isobel Everett

**ISOBEL EVERETT**
**Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru**

**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

[2] Pensiynau: Datganiad ysgrifenedig - HCWS1286 “… mae’r Trysorlys yn y broses o ddyrannu cyllid i adrannau i gynorthwyo gyda’r costau hyn”.